OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2008 Rhif 2298 (Cy.197)

# GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

## Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2008

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 21 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ('Deddf 2004') yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub ('y Fframwaith'), sy'n gorfod gosod blaenoriaethau ac amcanion ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub ac yn gallu darparu canllawiau. Rhaid i'r awdurdodau tân ac achub roi sylw i'r Fframwaith wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn, sy'n cael effaith mewn perthynas ag Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru, yn rhoi Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2008-2011 yn lle Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (Cymru) 2005.

Bydd Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2008-2011 yn cael effaith o 22 Medi 2008. Rhoddwyd effaith i Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (Cymru) 2005 gan OS 2005/760(Cy.64). Gellir cael copïau o Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2008-2011 gan y Gangen Gwasanaethau Tân ac Achub, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhyd y car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ. Cafodd ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru (http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/fire/?lang=cy) ar 28 Awst 2008.

Mae asesiad effaith reoleiddiol wedi'i baratoi mewn cysylltiad â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi gan y Gangen Gwasanaethau Tân ac Achub, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhyd y car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ (ffôn: 01685 729253).

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 2298 (W.197)

# FIRE AND RESCUE SERVICES, WALES

## The Fire and Rescue Services (National Framework) (Wales) Order 2008

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Section 21 of the Fire and Rescue Services Act 2004 ('the Act') requires the Welsh Ministers to prepare a Fire and Rescue National Framework ('Framework'), which must set out priorities and objectives for Fire and Rescue Authorities and may provide guidance. Fire and Rescue Authorities must have regard to the Framework in carrying out their functions.

Article 2 of this Order, which has effect in relation to Fire and Rescue Authorities in Wales, substitutes the Fire and Rescue National Framework for Wales 2008 - 2011 for the Fire and Rescue National Framework (Wales) 2005.

The Fire and Rescue National Framework for Wales 2008 - 2011 will have effect from 22 September 2008. The Fire and Rescue National Framework (Wales) 2005 was given effect by SI 2005/760 (W.64). Copies of the Fire and Rescue National Framework for Wales 2008 - 2011 may be obtained from Fire and Rescue Services Branch, Welsh Assembly Government, Rhyd y car, Merthyr Tydfil, CF48 1UZ. It was published on the Welsh Assembly Government website (http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/fire/?lang=en) on 28 August 2008.

A regulatory impact assessment has been prepared in connection with this Order. A copy can be obtained from the Fire and Rescue Services Branch, Welsh Assembly Government, Rhyd y car, Merthyr Tydfil, CF48 1UZ (tel: 01685 729253).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 2298 (Cy.197)

# GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

## Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Awst 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *1 Medi 2008* |
| *Yn dod i rym* | *22 Medi 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 21(6), 60 a 62 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2008 a daw i rym ar 22 Medi 2008.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Y Fframwaith Cenedlaethol**

**2**. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub a baratowyd gan Weinidogion Cymru sy'n dwyn yr enw "Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2008 - 2011" a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 28 Awst 2008 ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru(**3**) yn cael effaith fel diwygiad, sy'n ymddangos

(**1**) 2004 p. 21.

(**2**) Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gynhwysir yn Neddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/fire/?lang=cy

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2008 No. 2298 (W.197)

# FIRE AND RESCUE SERVICES, WALES

## The Fire and Rescue Services (National Framework) (Wales) Order 2008

| | |
|---|---|
| *Made* | *28 August 2008* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *1 September 2008* |
| *Coming into force* | *22 September 2008* |

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by sections 21(6), 60 and 62 of the Fire and Rescue Services Act 2004(**1**) and now vested in them(**2**) make the following Order:

**Title, commencement and application**

**1**.—(1) The title of this Order is the Fire and Rescue Services (National Framework) (Wales) Order 2008 and it comes into force on 22 September 2008.

(2) This Order applies in relation to Wales.

**The National Framework**

**2**. The Fire and Rescue National Framework prepared by the Welsh Ministers and entitled "The Fire and Rescue National Framework for Wales 2008-2011" published by the Welsh Ministers on 28 August 2008 on the Welsh Assembly Government's website(**3**) has effect as a revision, which appears to the Welsh

(**1**) 2004 c.21.

(**2**) The functions of the National Assembly for Wales contained in the Fire and Rescue Services Act 2004 were vested in the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(**3**) http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/fire/?lang=en

i Weinidogion Cymru yn arwyddocaol, o "Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (Cymru) 2005"(**1**).

Minsters to be significant, of the "The Fire and Rescue National Framework (Wales) 2005"(**1**).

*Brian Gibbons*

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Social Justice and Local Government, one of the Welsh Ministers

28 Awst 2008

28 August 2008

(**1**) Rhoddwyd effaith i Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (Cymru) 2005 gan O.S. 2005/760 (Cy.64).

(**1**) The Fire and Rescue National Framework (Wales) 2005 was brought into effect by S.I. 2005/760 (W.64).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2008 Rhif 2298 (Cy.197)

## 2008 No. 2298 (W.197)

# GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

# FIRE AND RESCUE SERVICES, WALES

Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2008

The Fire and Rescue Services (National Framework) (Wales) Order 2008

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£4.00**

W364/09/08 ON